
Cyfnewid fideo brys

Datganiad

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mehefin 2021

1. Trosolwg

Rydym eisiau sicrhau y gall pobl anabl gysylltu'n hwylus â'r gwasanaethau brys.

Mae gwasanaethau fideo brys yn ffordd o alluogi pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) i gyfathrebu'n effeithiol â phobl nad ydynt yn defnyddio BSL. Mae'r defnyddiwr BSL byddar yn gwneud galwad fideo gan ddefnyddio dyfais gysylltiedig i ffonio dehonglydd mewn canolfan alwadau. Mae'r dehonglydd yn cyfieithu'r hyn y mae'r defnyddiwr byddar yn ei ddweud i Saesneg llafar i'r person â chlyw ei glywed, ac yn arwyddo'r hyn y mae'r person â chlyw yn ei ddweud i'r defnyddiwr byddar.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom gyhoeddi cynnig i fynnu bod darparwyr gwasanaethau cyfathrebu'n darparu gwasanaeth cyfnewid fideo 24/7 ar gyfer defnyddwyr BSL byddar, wedi'i gymeradwyo gan Ofcom, i'w galluogi nhw i gyfathrebu â'r gwasanaethau brys trwy ap a gwefan benodedig.

Bydd galluogi defnyddwyr BSL i ddefnyddio eu hiaith gyntaf i alw am gymorth a derbyn cyngor mewn sefyllfaoedd brys yn gwneud cyfathrebiadau brys yn fwy cyflym ac yn fwy cywir. Bydd modd i ddefnyddwyr BSL ddisgrifio natur y sefyllfa frys yn well ac i ddeall yn well y cyfarwyddiadau a roddir gan y gwasanaethau brys a allai achub bywydau.

Roedd ein cynnig yn rhan o becyn o fesurau a gyflwynwyd gennym wrth ymateb i [newidiadau mewn rheolau Ewropeaidd](#), i ddiogelu cwsmeriaid a sicrhau eu bod yn cael bargaen deg. Fe adlewyrchodd yr egwyddor y dylai fod gan bobl anabl fynediad cyfatebol i gyfathrebiadau brys.

Derbyniodd y cynigion yn ein hymgyngoriad cychwynnol gefnogaeth eang, ond cododd yr ymatebion rhai pwyntiau penodol a oedd yn destun ymgynghori pellach ym mis Chwefror 2021. Roedd y rhain yn cynnwys mynnu bod darparwyr naill ai'n cyflwyno'r gwasanaeth cyfnewid fideo eu hunain neu'n contractio sefydliad arall i wneud hynny. Gwnaethom gynnig hefyd fod unrhyw ddata y mae cwsmeriaid yn ei ddefnyddio i wneud yr alwad fideo'n parhau am ddim i'r defnyddiwr - yn yr un modd yn union â galwadau brys eraill.

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio ein penderfyniad i fynnu darpariaeth gwasanaeth cyfnewid fideo brys, wedi'i weithredu trwy reoliadau telegyfathrebiadau'r DU (yr Amodau Cyffredinol). Bydd y gofyniad newydd hwn yn sefyll ochr yn ochr â'r gofynion presennol ar gyfer cyfnewid testun brys a SMS brys, y mae'r ddau ohonynt yn cael eu cadw, a bydd yn ychwanegol atynt.

Ein penderfyniadau

Ein penderfyniad yw y dylid mynnu i ddarparwyr gwasanaethau ffôn sefydlog a symudol (h.y. gwasanaethau cyfathrebu rhyngberonol seiliedig ar rifau) a darparwyr gwasanaethau mynediad i'r rhynggrwyd, ddarparu, neu gontractio i ddarparu, gwasanaeth cyfnewid fideo 24/7 am ddim ar gyfer defnyddwyr BSL byddar, sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom, er mwyn galluogi cyfathrebu â'r gwasanaethau brys.

Bydd y gofyniad newydd hwn yn dod i rym o 17 Mehefin 2022, ar yr un diwrnod y bydd Amodau Cyffredinol newydd eraill yn dod i rym sy'n gysylltiedig â hawliau i ymadael â chontractau, a gofynion gwybodaeth cyn-gontract.

Rydym yn awr yn gwahodd mynegiadau o ddiddordeb ar gyfer cymeradwyo gwasanaeth erbyn 1 Medi 2021 a cheisiadau ffurfiol am gymeradwyo gwasanaeth erbyn 1 Hydref 2021.

Mae'r trosolwg hwn yn grynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio'n unig. Disgrifir y penderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud, a'n sail resymegol drostynt, yn y ddogfen lawn.